*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
2 Llys Cadwyn
Stryd Taf
Pontypridd, CF37 4TH

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Gwasanaethau Democrataidd ac Ymgysylltu (07385401877)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 25AIN EBRILL, 2024** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 23 EBRILL 2024, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. **DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. **COFNODION 21.03.24**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 21.03.24 yn rhai cywir.

**5 - 8**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

5. **CAIS RHIF:22/0982**

Cynelau newydd i gathod a chŵn (Asesiad sŵn amgylcheddol wedi'i dderbyn ar 10/01/2023) (Adolygiad o adroddiad Clear Acoustic Design Ltd wedi'i dderbyn ar 15/03/2023).
**FFERM TREDEGAIN, HEOL PENYCOEDCAE, PENYCOEDCAE, PONTYPRIDD, CF37 1PU**

**9 - 24**

6. **CAIS RHIF: 22/1149**

Adeiladu cyfleuster adennill agregau. (Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) diwygiedig, lluniadau ac adrannau ychwanegol wedi'u diweddaru ac Asesiad Ansawdd Aer wedi'u dderbyn ar 4 Mai 2023, Asesiad Trafnidiaeth Ddiwygiedig ac Adendwm Ansawdd Aer wedi'u derbyn ar 28 Medi 2023, Asesiad Sŵn wedi'i Ddiweddaru wedi'i

dderbyn ar 14 Rhagfyr 2023. Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Chynllun Rheoli Ecolegol wedi'i Ddiweddaru wedi'u derbyn ar 5 Chwefror 2023).
**CHWAREL FFOREST WOOD, HEOL Y BONT-FAEN, TALYGARN, PONT-Y-CLUN, PONT-Y-CLUN, CF72 9XD**

**25 - 76**

**7. CAIS RHIF: 23/0719**

Adnewyddu adeilad Masnachol presennol a ddifrodwyd gan dân yn 6 fflat a 2 ofod masnachol llai.
**4 - 5 STRYD Y FARCHNAD, ABERDÂR, CF44 7DY**

**77 - 92**

**8. CAIS RHIF: 23/1105**

Cais amlinellol ar gyfer uned bwyd a diod gyrru drwodd (Defnydd Dosbarth A3) hyd at 160 metr sgwâr (holl faterion wedi'u cadw'n ôl ac eithrio mynediad) (Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd wedi'i ddiweddaru ac wedi'i dderbyn ar 05/02/24)
**KENTUCKY FRIED CHICKEN, HEOL-Y-PWLL, YSTAD DDIWYDIANNOL TREFFOREST, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 7QX**

**93 - 106**

**9. CAIS RHIF: 23/1255**

8 o unedau preswyl gyda gwaith isadeiledd cysylltiedig (Arolwg Ystlumod wedi'i dderbyn ar 28/11/23)
**TIR AR SAFLE'R HEN WAITH BRICS GER HEOL LLWYDCOED, LLWYDCOED, ABERDÂR**

**107 - 130**

**10. CAIS RHIF: 24/0131**

Adnewyddu strwythur y bont a bodloni'r gofynion gwaith dros dro cysylltiedig (Gwybodaeth ychwanegol wedi'i chyflwyno ar 13/03/24 a 26/03/24)
**PONT Y BIBELL GLUDO ODDI AR Y DRAMFFORDD, TREHARRIS, CF46 5EF**

**131 - 144**

**<u>ARCHWILIAD O'R SAFLE</u>**

**11. CAIS RHIF: 23/1169/10**

Annedd ar wahân a gwaith uwchraddio i'r lôn fynediad. (Asesiad Risg Cloddio Glo wedi'i dderbyn ar 21/11/23) (Ffin llinell goch ddiwygiedig a chynlluniau wedi'u derbyn ar 15/12/23)
**TIR Y TU ÔL I STRYD MILDRED, BEDDAU**

**145 - 162**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**12. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 01/04/2024 – 12/04/2024

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**163 - 172**

**13. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad: -**

**Aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees ac Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd A Dennis, Y Cynghorydd S Emanuel,
Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd M Powell,
Y Cynghorydd J Smith, Y Cynghorydd L A Tomkinson ac Y Cynghorydd R Williams

Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd